artesmundi

# GWYBODAETH A PHECYN YMGEISIO

## HWYLUSYDD RHWYDWAITH

HELD-SPACE AR GYFER ARTISTIAID MWYAFRIF BYD-EANG YNG NGHYMRU

## CYFLWYNAID

Artes Mundi yw’r prif sefydliad blaenllaw â ffocws rhyngwladol yng Nghymru i’r celfyddydau gweledol sy’n creu cyfleoedd unigryw i unigolion a chymunedau lleol i ymgysylltu’n greadigol â materion brys ein hoes mewn ffyrdd sy’n taro deuddeg gyda ni i gyd. Rydym yn ymrwymedig i ysgogi deialogau a thrafodaethau, yn rhyngwladol ac yn lleol, sy’n datblygu gwell dealltwriaeth ohonon ni’n hunain, o bobl eraill a’r cysylltiadau rhwng diwylliannau cyfarwydd a phellenig.

## Y RÔL

Bydd Hwylusydd y Rhwydwaith yn gweithio â thîm Artes Mundi ac ag aelodau o’r Rhwydwaith Held-Space ar gyfer Mwyafrif Byd-eang i gyd-ddylunio a chyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau, sesiynau 1 i 1 â chymheiriaid, beirniadaethau, teithio ymchwil, gweithdai, cyflwyniadau, a chyfarfodydd. Mae hwn yn gyfle cyffrous i groesawu talent newydd i’n tîm curadu a rhaglen ymroddgar, ac i gefnogi artistiaid, curadwyr, ysgrifenwyr, ac eraill sy’n gweithio yn y sector celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Gan adrodd i Letty Clarke, Curadur Rhaglenni Cyhoeddus, a Nigel Prince, Cyfarwyddwr, bydd Hwylusydd y Rhwydwaith yn chwarae rôl allweddol drwy gyflwyno a dylunio holl weithgarwch y rhwydwaith, yn ogystal â chyfrannu at ddylunio rhaglen gyhoeddus ehangach Artes Mundi.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Bydd Hwylusydd y Rhwydwaith yn:

- Mynychu cyfarfodydd ac yn cadw trosolwg ar holl weithgarwch Rhwydwaith Held-Space ac yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i'r holl artistiaid wrth i'r prosiect esblygu, gan gynnig cymorth a mewnbwn creadigol fel sy'n briodol.
- Goruchwylio a chyflawni pob agwedd ar amserlenni'r rhaglen, cydlynu logisteg, rheoli briffiau mewnol/allanol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n effeithiol
- Helpu i ddatblygu strwythur y Rhwydwaith, eu helpu i benderfynu ar amlder cyfarfodydd, dyrannu cyllideb ac adnoddau. Rhaid gwneud hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau mewnol Artes Mundi
- Helpu datblygiad y Rhwydwaith yn achos datblygu unrhyw frand a chyfathrebu gyda chymorth Swyddog Marchnata a Chyfathrebu Artes Mundi a chontractwyr eraill yn ôl yr angen
- Helpu i ddatblygu aelodaeth o'r Rhwydwaith, gan sicrhau bod y Rhwydwaith yn parhau i wahodd aelodau newydd o bob rhan o Gymru

- Anfon diweddariadau e-bost yn rheolaidd at y Rhwydwaith, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, cynulliadau a gweithdai, a rhannu ‘Cyfleoedd i Artistiaid’ a all fod o ddiddordeb iddynt
- Helpu timau’r Rhwydwaith ac Artes Mundi i werthuso’r prosiect, gan weithio â chontractwyr eraill yn ôl yr angen, gan gynnwys helpu i gasglu data a gwerthuso profiadau artistiaid. Bydd modd defnyddio’r holl ddata ac adborth mewn mentrau i ddod
- Cynorthwyo i goladu gwybodaeth i lunio adroddiadau a gwerthusiadau ar gyfer Artes Mundi
- Cyfrannu at holl Gyfarfodydd Tîm a Rhaglen Artes Mundi a chanfod rhagor o gyfleoedd i artistiaid y rhwydwaith gyfrannu at raglen Artes Mundi

**YR UNIGOLYN**

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o weithio yn y sector celfyddydau gweledol, sy’n frwd dros ddatblygiad artistiaid ac ymarfer cyd-greadigol ac sy’n dangos ymrwymiad i ymgysylltu ag artistiaid, ysgrifenwyr a churadwyr mewn celfyddydau gweledol cyfoes yng Nghymru.

Rydym am weithio â phobl sydd:

- Yn agored, chwilfrydig ac angerddol dros ddiwylliant a’r celfyddydau yng Nghymru
- Â diddordeb mewn rhannu eu syniadau ac sy’n awyddus i wrando ar eraill

- Yn mwynhau dysgu pethau newydd a derbyn heriau
- Yn gallu gweithio’n annibynnol ond sy’n hapus i ofyn am help ac arweiniad

Bydd y rôl hon yn cael ei chefnogi’n bennaf gan y Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a’r Cyfarwyddwr, ond byddwch mewn cysylltiad hefyd ac yn gweithio â holl dîm Artes Mundi. Hefyd, byddwch mewn cysylltiad ag aelodau’r Rhwydwaith Held Space, a fydd mewn ysbryd o ymarfer cydweithredol, yn cynnig adborth a syniadau a fydd yn eich helpu yn eich rôl.

## CYMWYSTERAU, ADDYSG A PHROFIAD

O leiaf pum mlynedd o weithio yn y sector celfyddydau gweledol cyfoes ac o weithio’n uniongyrchol ag artistiaid. Byddai rhywun sydd â phrofiad bywyd o hil, diwylliant a hiliaeth mewn cymdeithas (ac yn fwy penodol yn y sector celfyddydau gweledol) yn golygu y byddant yn gallu cynnig cymorth priodol â gofal ac empathi i aelodau Held-Space yn ddymunol dros ben. Byddai siaradwr Cymraeg yn ddymunol.

## SGILIAU A GALLUOEDD

- Hwyluso gofod diogel a dewr ar gyfer rhannu
- Hwyluso prosesau penderfynu ar y cyd ar gyfer grwpiau o bobl
- Ymchwilio, trefnu a chynllunio adnoddau, cyfleoedd a digwyddiadau, a chynhyrchu prosiectau gorffenedig gan gadw o fewn yr amserlenni

- Rheoli prosiectau a digwyddiadau
- Dangos agwedd bositif tuag at ddatrys problemau
- Dadansoddi, blaenoriaethu a threfnu eu gwaith yn annibynnol yn ogystal â bod yn rhan o dîm Artes Mundi
- Mwynhau dysgu pethau newydd a derbyn heriau
- Gweithio ar sawl tasg ar yr un pryd
- Bod yn angerddol dros ddiwylliant a'r celfyddydau, a'u rôl mewn cymdeithas
- Sgiliau cyfrifiadurol cryf gan gynnwys pecyn MS Office, sy'n cynnwys Word, Outlook ac Excel
- Gweinyddu'r celfyddydau gan gynnwys; gweithdrefnau trefniadol, gweithio â chronfeydd data, systemau swyddfa a TG
- Trefnu a chyflawni blaenoriaethau
- Gweithio â phobl o wahanol gefndiroedd ar ystod eang o lefelau a chyfrifoldebau
- Meddu ar sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu llafar da
- Gweithio yn ôl eich crebwyll eich hun ac fel rhan o dîm
- Rheoli cyllidebau, gan gynnwys cynorthwyo artistiaid sy'n dod i'r amlwg a gweithwyr llawrydd â thasgau gweinyddol sylfaenol (e.e., trefnu anfonebau am waith wedi'i gwblhau)
- Agwedd hyblyg tuag at waith, ystyried anghenion y sefydliad a chydweithwyr wrth rannu eich syniadau a gwrando ar syniadau pobl eraill
- Y gallu i eiriol drosoch eich hun ac eraill yn hyderus, neu'r gallu i ofyn am help gan eraill o

fewn a'r tu allan i dîm staff Artes Mundi pan fydd angen
- Y gallu i weithredu a chymhwyso crebwyll doeth ac agwedd bositif tuag at ddatrys problemau

Bydd rhai o'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu ymhellach yn y rôl yn cynnwys:

- Sefydlu prosesau penderfynu cydweithredol mewn rhwydweithiau yng nghyd-destun Cymru
- Gofynion cynllunio a gwireddu prosiectau cenedlaethol uchelgeisiol
- Profiad o arferion gwerthuso a sut y gellir eu defnyddio i gynllunio prosiectau ac i wneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol
- Y gallu i feddwl yn strategol ac arwain ffyrdd arloesol newydd i ddatblygu ffyrdd o gyfathrebu ar gyfer rhaglenni
- Y gallu i feithrin perthnasoedd proffesiynol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- Datblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar, gweithio fel tîm a sgiliau negodi

## YR HYN Y BYDDWN YN EI WNEUD I'CH HELPU I GYFLAWNI EICH GWAITH GORAU

Bydd Hwylusydd y Rhwydwaith yn cydweithio'n glos ac yn cydweithredu â'r Curadur Rhaglenni Cyhoeddus a'r Cyfarwyddwr a fydd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn cael pob help i wneud eich gwaith. Byddwch yn cael amser cyswllt rheolaidd drwy Zoom yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Ydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd sy'n meithrin cyfranogaeth ystyrlon a phrofiadau dysgu cadarnhaol. Bydd y manteision o fod yn rhan o dîm craidd bach yn gadael i chi gael cysylltiad dyddiol rheolaidd ag aelodau allweddol o'r tîm staff gan gynnwys y cyfarwyddwr yn ogystal â chyfrannu i gyfarfodydd cynllunio a rhaglennu ffurfiol. Bydd cyfleoedd hefyd yn codi i gyfarfod ag Ymddiriedolwyr.

Byddwn yn darparu lle gweithio, cyfrifiadur a chyfarpar arferol arall i chi yn ein swyddfa yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau presennol yn nyddiau Covid-19 byddwch yn cael gliniadur, adnoddau ac addasiadau rhesymol i weithio gartref, yn ogystal ag unrhyw gymorth Mynediad i Waith os oes angen. Mae Artes Mundi wedi ymrwymo i sicrhau y gallwch wneud eich gwaith gorau ac y byddwch yn gallu cefnogi anghenion mynediad fel sy'n briodol gyda'r gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd gennych gyfle sylweddol yn y swydd i ddatblygu'ch rhwydweithiau. Yn ogystal â'r gefnogaeth a ddarperir gan Artes Mundi, bydd cyfle i ymgysylltu ag artistiaid a churaduron ac orielau cynrychioli rhyngwladol. Byddwn hefyd yn datblygu cysylltiadau rhyngoch chi a phartneriaid eraill ledled Cymru. Bydd gwahoddiadau i agoriadau arddangosfeydd a rhwydweithiau, digwyddiadau a chyfleoedd creadigol yn rhan o'r rôl hefyd.

**ARFERION CYNHWYSOL**

Mae Artes Mundi yn ymdrechu i fod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol gyda gweithlu a chynulleidfa sydd â phrofiad bywyd sydd mor amrywiol â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn hanfodol i ddyfodol ein llwyddiant a'n gallu i barhau i gyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru a'r DU.

Mae Artes Mundi wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau cydraddoldeb yn ein holl waith ac rydym yn cydweithredu i greu diwylliannau gweithio cynhwysol. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl nad yw eu profiadau na'u safbwyntiau'n cael eu cynrychioli'n deg yn ein gwaith nac yn y sector celfyddydau yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys pobl sy'n amrywiol yn ethnig a diwylliannol, ac sy'n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl Fyddar, anabl a niwroamrywiol a phobl o gymunedau dosbarth gweithiol. Rydym yn croesawu'n arbennig ymgeiswyr sy'n gallu siarad ag un neu fwy o'r profiadau a'r diwylliannau hyn, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.

Noder y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar-lein, drwy ddefnyddio Zoom neu blatfformau eraill ar gais. Darperir rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau i ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd am gyfweliad. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o dîm Artes Mundi ac aelodau o'r Rhwydwaith Held-Space. Bydd cymorth ariannol ar gael i unrhyw un sy'n gofyn am help a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan mewn cyfweliad ar-lein.

**Telerau'r Swydd**
Cynigir y swydd hon fel contract 12 mis ar sail lawrydd. Mae ffi gynhwysol o £10,400 ar gael am 1.5 diwrnod/11.25 awr yr wythnos a ragwelir i'w dalu mewn rhandaliadau misol drwy anfoneb.

Oriau gwaith swyddfa nodweddiadol yw 9:30yb – 5:30yp. Gofynnir i ddeiliad y swydd gyflwyno ac ymgymryd â gwaith ar rai nosweithiau a phenwythnosau. Rhoddir rhybudd priodol. Lleolir swyddfa Artes Mundi yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ond mae holl aelodau'r tîm yn gweithio gartref ar hyn o bryd.

## SUT I WNEUD CAIS

Dylai ymgeiswyr wneud cais am y rôl yma drwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal, a'u cyflwyno drwy e-bost at opportunities@artesmundi.org gan nodi Hwylusydd Rhwydwaith yn y llinell bwnc. Ceir manylion dewisiadau eraill ar gyfer ymgeisio yn y nodiadau arweiniol a geir yn y ddogfen hon.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 28 Ebrill 2023, 12pm
**Cynhelir cyfweliadau:** 05 a 11 Mai 2023 ar amseroedd i'w cadarnhau
**Dyddiad cychwyn delfrydol:** 5 Mehefin 2023 (er y gellir trafod hyn yn y cyfweliad)

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

## NODIADAU CANLLAW

Diolch am fynegi diddordeb mewn ymuno â thîm Artes Mundi. Darllenwch y nodiadau canllaw hyn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau'n ymwneud â'r swydd, y ffurflenni neu gyfweliadau, cysylltwch â Letty Clarke, Curadur Rhaglenni Cyhoeddus, yn letty.clarke@artesmundi.org ac mi allwn eich helpu. Noder, mae Letty Clarke yn gweithio tri diwrnod yr wythnos felly gofynnir i chi anfon cwestiynau ati mewn da bryd, ac mi fydd yn cysylltu â chi cyn gynted â phosibl yn ystod ei horiau gwaith.

## DARLLENWCH Y DISGRIFIAD SWYDD A'R FANYLEB PERSON

Mae pwrpas, prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd wedi'u nodi yn y disgrifiad swydd, a rhestrir y wybodaeth, y sgiliau, y priodweddau a'r profiad rydym yn chwilio amdanynt yn yr ymgeisydd llwyddiannus yn y fanyleb person. Mae'n bwysig darllen yr holl wybodaeth yn y dogfennau hyn cyn cwblhau'ch cais.

## MEDDYLIWCH AM EICH PROFIAD

Edrychwch ar y gweithgareddau sy'n rhan o'r swydd. Gofynnwch i'ch hun pam mae gennych chi ddiddordeb

yn y swydd hon. A fyddai'n newid da i chi o ran gyrfa? Ai'r bwriad yw ehangu'ch sgiliau a'ch profiad?

Meddyliwch pa dystiolaeth y gallwch ei darparu i ddangos bod y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol gennych chi o unrhyw gyd-destun. Gall esbonio eich swyddi cyfredol (a blaenorol) neu brofiad i rywun arall eich helpu i ddatgelu sgiliau 'cudd' yr ydych wedi'u cymryd yn ganiataol. Gallech gynnwys profiad gwaith gwirfoddol/di-dâl, neu brofiad a gawsoch drwy rôl â chyfrifoldeb yn un o'ch gweithgareddau hamdden, hobïau neu unrhyw agwedd arall ar eich bywyd.

**LLENWI'R FFURFLEN**

Peidiwch ag atodi CV, geirdaon neu gopïau o dystysgrifau addysgol i'ch cais.

Mae'n bwysig cofio na all y rhai sy'n rhan o'r broses ddethol ddyfalu na gwneud rhagdybiaethau amdanoch chi. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n sôn wrthym am bopeth sy'n berthnasol i'ch cais a'ch bod yn cwblhau pob adran o'r ffurflen. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais, sydd â'r nod o'ch helpu chi i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Mae'r adran 'Datganiad Ategol' yn rhan bwysig iawn o'ch cais. Yn yr adran hon, gofynnir i chi ymateb i'r syniadau a'r gwerthoedd hanfodol sy'n berthnasol i'r swydd. Dyma'ch cyfle i ddweud wrthym yn benodol pam eich bod chi am ymgeisio am y swydd a beth sy'n eich gwneud chi'n ymgeisydd addas. Peidiwch â gwneud dim mwy na dweud bod y priodweddau, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad gennych chi – mae angen darparu

enghreifftiau penodol o'r hyn rydych wedi'i wneud a sut rydych chi'n credu eu bod yn berthnasol i'r swydd.

Cofiwch brawfddarllen eich ffurflen a gwirio am unrhyw gamgymeriadau cyn ei chyflwyno i ni.

**FFORMATAU ERAILL**

O ran eich 'Datganiad Ategol', gallech gyflwyno fideo neu recordiad sain fel ffeil mp4 nad yw'n fwy na 10 munud o hyd yn lle darn ysgrifenedig. Gwnewch yn siŵr bod cyn lleied o sŵn â phosibl yn y cefndir a'ch bod yn siarad yn glir. Mae rhagor o wybodaeth am hyn o dan yr adran Datganiad Ategol.

Os ydych chi'n dewis defnyddio'r fformat hwn mae'n rhaid i chi ddychwelyd rhan gyntaf eich Ffurflen Gais a'r Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal i ni mewn e-bost o hyd. Cysylltwch â ni os ydych angen unrhyw gymorth.

**CYFWELIAD**

Cynhelir y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon ar 5 a 11 Mai 2023. Cynhelir pob cyfweliad ar-lein gan ddefnyddio Zoom neu gyfrwng arall os oes angen.
Os nad yw'r dyddiadau hyn yn bosibl i chi neu eich bod angen defnyddio platfform gwahanol rhowch wybod i ni ac fe wnawn weithio gyda chi i chwilio am ddewis arall.

Bydd rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau'n cael eu darparu i ymgeiswyr sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad. Bryd hynny byddwch yn gallu rhoi manylion unrhyw drefniadau arbennig neu addasiadau rydych chi eu hangen er mwyn gallu cymryd rhan yn ein proses ddethol trwy gyfweliad yn effeithiol.

**FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL**

Mae'n rhaid cael Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal gyda phob cais. Bydd y ffurflen yn cael ei gwahanu oddi wrth eich cais wrth gael ei dderbyn ac ni fydd yn rhan o'r broses.

Os ydych yn ymgeisio am swydd sy'n golygu gweithio gyda phlant/oedolion agored i niwed gall eich cynnig cyflogaeth fod yn amodol ar ddatgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallai methu datgelu gwybodaeth am unrhyw euogfarnau arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.

artesmundi

# HWYLUSYDD RHWYDWAITH

Ffurflen Gais

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa'n unig |

| |
|---|
| Hwylusydd Rhwydwaith |

| | |
|---|---|
| Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Ffôn | Ffôn Symudol |
| E-bost | |
| Sut y clywsoch chi am y swydd? | |

Bydd yr adran hon yn cael ei gwahanu oddi wrth y

ffurflen gais pan fyddwn yn ei derbyn ac ni fydd yn rhan o’r broses ymgeisio o gwbl

Cyfeirnod
At ddefnydd swyddfa'n unig

## DATGANIAD ATEGOL

Dyma eich cyfle i ddweud wrthym pam yr hoffech ymgeisio am y swydd a'r hyn a fyddai yn eich gwneud yn Hwylusydd Rhwydwaith gwych gydag Artes Mundi gan weithio'n benodol ar y Rhwydwaith Held Space ar gyfer Artistiaid Mwyafrif Byd-eang yng Nghymru.

Dywedwch sut y byddech chi'n mynd i'r afael â'ch gwaith a'r swydd. Defnyddiwch eich gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau blaenorol a chyfredol a rhowch enghreifftiau sy'n dangos sut y byddech chi'n cymhwyso'r rhain i syniadau, gwerthoedd a ffyrdd o weithio sy'n berthnasol i'r swydd. Gweler y nodiadau canllaw am gymorth pellach.

Fel canllaw i strwythuro'ch datganiad gallech ystyried rhai o'r cwestiynau isod neu bob un ohonynt.

- Pam ydych chi'n ymgeisio am y swydd hon?
- Soniwch am eich diddordeb/ymrwymiad i ddiwylliant a'r celfyddydau.

- Beth ydych chi'n ei fwynhau am ddysgu pethau newydd ac ymgymryd â heriau?
- Sut ydych chi'n blaenoriaethu tasgau?
- Ydych chi'n cynllunio a datrys problemau mewn ffyrdd penodol?
- Sut ydych chi'n gweithio gydag eraill ac yn annibynnol?

Yn gyffredinol, ni ddylai'ch datganiad fod yn hirach na dwy ochr o A4 gyda maint ffont o 11 pwynt o leiaf. Fel arall, fel y nodir yn y nodiadau canllaw, gellir cyflwyno hyn fel fideo neu recordiad sain. Os ydych chi'n defnyddio'r dull hwn, ni ddylai fod yn hirach na 10 munud.

Os ydych chi'n penderfynu cyflwyno fideo neu recordiad sain gwnewch yn siŵr bod cyn lleied o sŵn cefndir â phosibl arno a'ch bod yn siarad yn glir i'r meicroffon. Peidiwch ag ychwanegu effeithiau ychwanegol i'r cyflwyniadau hyn – dim ond siarad yn uniongyrchol i'r meicroffon neu'r camera. Gall recordiadau sain a fideo greu ffeiliau mawr a allai fod yn anodd i'w hanfon mewn e-bost felly anfonwch ddolenni a chyfrineiriau i'ch ffeiliau naill ai ar Youtube, Vimeo neu Soundcloud neu e-

bostiwch nhw atom ni yn opportunities@artesmundi.org gyda “**Hwylusydd Rhwydwaith**” yn y llinell pwnc.

| |
|---|
| Cyfeirnod<br>At ddefnydd swyddfa yn unig |

**SWYDD BRESENNOL NEU FWYAF DIWEDDAR**

**(CYFLOGEDIG NEU DDI-DÂL)**

| | |
|---|---|
| Enw a chyfeiriad y cyflogwr | |
| Teitl y Swydd | Dyddiadau cyflogi |
| Cyfnod rhybudd os o gwbl | |
| Rhowch amlinelliad byr o’ch prif ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau | |

**Gwybodaeth o Gymraeg llafar neu ieithoedd eraill. Nodwch yr iaith a'r lefel (e.e. mynediad, sylfaen, canolradd, uwch, rhugl)**

Nid oes angen ail iaith ar gyfer y swydd hon

## SWYDDI ERAILL A GWAITH GWIRFODDOL (CYFLOGEDIG A/NEU DDI-DÂL)

Nodwch y diweddaraf yn gyntaf

| O<br>I | Enw a chyfeiriad y cyflogwr | Rôl a chyfrifoldebau | Rhesymau am adael/symud |
|---|---|---|---|
| | | | |

## ADDYSG A HYFFORDDIANT

Rhowch fanylion unrhyw gymwysterau a enillwyd a rhai rydych yn eu hastudio ar hyn o bryd, ac unrhyw hyfforddiant rydych wedi'i gwblhau neu sy'n parhau. Nodwch y diweddaraf yn gyntaf.

| Ysgol/Coleg/Prifysgol/Darparwr Hyfforddiant | Pynciau a graddau a/neu Deitl y Cwrs | Dyddiadau cyflawni |
|---|---|---|
| | | |

**GWIRIO**

Rwy’n cadarnhau bod y wybodaeth uchod yn gywir hyd y gwn i.

Rwy’n cadarnhau nad wyf mewn addysg lawn amser (12 awr neu fwy o astudio yr wythnos)

Rwy’n cadarnhau bod gennyf hawl i weithio yn y DU

Y Ddeddf Diogelu Data

Nodwch fod llofnodi'r ffurflen yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio'r ffurflen gais at ddibenion prosesu recriwtio. Bydd yr holl fanylion yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Llofnod:

Dyddiad:

Nodwch y bydd rhaid llenwi ein Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ar wahân ac ni fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer tynnu rhestr fer yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Bydd llenwi'r ffurflen yn helpu Artes Mundi i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

**CANOLWYR**

Rhowch fanylion dau ganolwr. Un ohonynt fydd eich cyflogwr presennol, neu fwyaf diweddar os nad ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd. Gallai'r llall fod yn rhywun

sy’n gallu mynegi barn broffesiynol ar eich gwaith a’ch gallu i gyflawni’r swydd yr ydych yn ymgeisio amdani.

Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr cyn cyfweliad.

| | |
|---|---|
| Enw | Enw |
| Teitl swydd | Teitl swydd |
| Enw’r sefydliad | Enw’r sefydliad |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| Rhif ffôn<br><br>E-bost | Rhif ffôn<br><br>E-bost |
| Am ba hyd ydych chi wedi adnabod yr unigolyn hwn ac ym | Am ba hyd ydych chi wedi adnabod yr |

| | |
|---|---|
| mha gyd-destun? | unigolyn hwn ac ym mha gyd-destun? |

**Diolch am eich diddordeb yn Artes Mundi ac am roi o’ch amser i lenwi’r ffurflen gais.**